Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

SYNIADAU GWEDDI AC ADDOLIAD

Ein gobaith yw y bydd eich corfflu neu ganolfan, drwy ymgysylltu â Sul yr Hinsawdd, mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'r mater hollbwysig hwn. Does dim dyddiad penodol ar gyfer Sul yr Hinsawdd felly gellir defnyddio'r adnoddau hyn ar unrhyw Sul o'ch dewis.

Dyma ddetholiad o syniadau gweddi ac addoli i'w defnyddio mewn gwasanaethau addoli ar-lein neu wasanaethau neu sesiynau grŵp sy'n cadw pellter cymdeithasol.

Gweddi

<u>Canu Cân Newydd</u>

Mae Salm 96 yn un o'r salmau sy'n galw ar y Ddaear i ganu cân newydd i'r Arglwydd – i ganmol ei enw a chyhoeddi ei achubiaeth. Rhannwch ar y sgrin rai delweddau sy'n dangos ffyrdd y mae'r Ddaear yn canmol ei enw wrth i chi ddarllen y darn hwn. Ym mha ffyrdd y mae'r enghreifftiau hyn o'r greadigaeth yn cyhoeddi ei achubiaeth ac yn datgan ei ogoniant?

Treuliwch beth amser yn canmol ei enw drwy weddi. Gallech wneud hyn drwy ofyn i bobl rannu geiriau o fawl i Dduw, neu ei wahanol enwau/priodoleddau (ee Crëwr, Brenin, Adnewyddwr, Gwaredwr).

<u>Creadigaeth Newydd</u>

Yn 2 Corinthiaid 5:17 mae Paul yn dathlu ein bod yn greadigaethau newydd yng Nghrist. Rydym hefyd yn byw mewn gan edrych ymlaen yn frwd am 'nefoedd newydd a daear newydd'. Mae'r greadigaeth hefyd yn edrych ymlaen yn frwd (Rhufeiniaid 8), ond ar hyn o bryd mae'n gwegian. Yn yr un modd ag y mae Duw yn ein cymodi ag ef ei hun, mae hefyd yn cymodi'r byd i gyd ag ef ei hun – y byd dynol a'r byd nad yw'n ddynol.

Fel llysgenhadon Duw o'r cymod hwn mae angen nid yn unig i ni ystyried sut rydym yn gwneud y newyddion da hwn yn hysbys i eraill, ond hefyd sut i fod yn newyddion da i'r greadigaeth ehangach.

Treuliwch beth amser mewn dathliad gweddigar o'r ffordd y cawsom ein hadnewyddu a'n hadfer gan Dduw, a gofynnwch am ei arweiniad ar sut y dylen ni ymateb:

- Diolch iddo nad yw wedi anghofio amdanom a'i fod yn dal i'n siapio a'n mowldio i'w greadigaethau newydd.
- Gwahoddwch ef i mewn i barhau â'r gwaith adfer hwn ynoch.
- Gweddïwch y byddwch yn gallu rhoi'r gorau i'r mathau o ymddygiad sy'n achosi dinistr a gwastraff, a chychwyn ar lwybr newydd tuag at adferiad.
- Gweddïwch y bydd Duw yn datgelu ffyrdd i ni wneud hyn fel unigolion, fel cartrefi ac fel corfflu neu ganolfan.

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Anadl Duw

Defnyddiwch y weddi ganlynol gyda'ch gilydd – darllenwch hi'n araf ac anogwch bobl i anadlu gyda'r weddi:

Arglwydd, diolchwn i ti am yr harddwch a'r rhyfeddod sydd i'w gweld yn y greadigaeth gyfan. Fel y bu i ti anadlu bywyd i'r byd hwn ac i'n bodau ninnau, gofynnwn i ti anadlu bywyd i mewn i ni unwaith eto.

Gweddïwn y byddi'n rhoi'r nerth i ni ymateb i'r greadigaeth mewn ffordd sy'n adlewyrchu dy ofal cariadus a'th gonsyrn dros bob peth.

Wrth i ni anadlu dy gariad i mewn, helpa ni i anadlu dy gariad allan.
Wrth i ni anadlu dy ras i mewn, helpa ni i anadlu dy ras allan.
Wrth i ni anadlu dy harddwch i mewn, helpa ni i anadlu dy harddwch allan.

Boed i ni adlewyrchu dy natur ym mhob peth a wnawn.

Amen.

Ar Ddelwedd Duw

Rhowch deils bach mosaig drych (ar gael i'w prynu ar-lein neu o siopau crefft) i bob aelod o'ch cynulleidfa/grŵp. Neu, os ydych chi'n defnyddio hwn ar-lein, anogwch bobl i ddod o hyd i ddrych neu ddefnyddio'r camera ar eu dyfais. Myfyriwch ar y ffaith ein bod i gyd wedi ein creu ar ddelw Duw. Treuliwch beth amser yn cydnabod presenoldeb dwyfol Duw yn yr hyn y mae wedi gwneud i ni fod, ac ystyriwch sut y gall pob un ohonom adlewyrchu ei natur yn y ffordd yr ydym yn trin ei greadigaeth ddynol a heb fod yn ddynol.

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Achub y Greadigaeth drwy'r Beibl – Taith Weddi

Stori'r Beibl yn y pen draw yw stori cymodi, achub ac adfer yr holl greadigaeth. Wrth i ni fynd drwy'r stori hon, gadewch i ni ddarganfod mwy am ein Creawdwr a'i gariad tuag at y cyfan y mae wedi'i greu. Ac, fel pobl wedi'i greu ar ei ddelwedd, boed i ni ddeall mwy ynghylch sut y gallwn fod yn rhan o'i gynllun achubol.

Yr ardd (Genesis 1-2)

Dywed Genesis wrthym ein bod yn cael ein gwneud ar ddelwedd Duw, gan adlewyrchu ei natur (1:26 *The Message*) fel y gallwn fod yn gyfrifol am y byd da iawn y mae wedi'i greu. Gweddïwch am arweiniad ar y ffordd orau i wasanaethu a chadw'r greadigaeth.

Sabath (Lefiticus 25:1-7)

Ymhlith cyfreithiau niferus yr Hen Destament mae pwysigrwydd y Sabath - i'r tir yn ogystal ag i bobl Duw. Tynnodd yr egwyddor sylw at bwysigrwydd peidio â gorweithio'r tir, ond hefyd i adael iddo orwedd yn fraenar. Gweddïwch am ddoethineb i sicrhau nad ydych yn achosi i'r tir gael ei or-ddatblygu drwy eich gweithredoedd a'ch ffordd o fyw.

I ganmol y Creawdwr (Salm 148)

Mae'r Salmau'n llawn canmoliaeth i'r Creawdwr a'i greadigaeth. Canmolwch Dduw am ei greadigaeth drwy'r hyn y gallwch ei weld o'ch cwmpas heddiw. Gofynnwch i Dduw ddatgelu mwy ohono'i hun i chi drwy ei fyd.

Ymgnawdoliad (Ioan 1)

Yn Ioan 1 rydyn ni'n darllen am Grist - sydd wedi bod yn bresennol ers dechrau'r greadigaeth - yn dod yn gnawd a gwaed a rhoi gwreiddiau i lawr yn y byd a greodd. Ystyriwch sut y gallwch ddilyn yr esiampl hon o ymgnawdoliad a dangoswch ymrwymiad i'r lle rydych chi'n eich cael eich hun yn y cyfnod hwn o'ch bywyd.

Iachawdwriaeth i'r holl greadigaeth (Ioan 3:16)

Gellid dadlau mai Ioan 3:16 yw adnod enwocaf y Beibl. Ond yn aml dydyn ni ddim yn gweld bod yr adnod hon yn dangos cariad Duw at y byd, nid dim ond at ddynolryw. Diolchwch i Dduw am ei aberth ar y groes a'i fod wedi dod i gymodi pob peth â'i hun (Colosiaid 1:20).

Y greadigaeth yn griddfan (Rhufeiniaid 8:18-25)

Mae Paul yn dweud wrthym yn Rhufeiniaid 8 fod y greadigaeth yn griddfan. Gweddïwch y byddwch yn dod yn fwy ymwybodol o'r ffyrdd y mae'r greadigaeth yn griddfan. Gweddïwch ar Dduw i roi arweiniad i chi ynglŷn â sut y gallwch ymateb i'r griddfan hwn fel y bydd ei ogoniant yn cael ei amlygu ynoch chi a drwoch chi.

Daear newydd (Datguddiad 21)

Nid yw'r stori rydyn ni wedi bod yn ei hastudio wedi gorffen eto. Rydyn ni'n dal yn ei byw. Yn Llyfr y Datguddiad gwelwn fod stori achubiaeth Duw yn gorffen gyda Nefoedd newydd a Daear newydd (neu wedi'i hadnewyddu). Diolchwch i Dduw am ei gynllun i wneud popeth yn newydd (adn 5). Gweddïwch y byddwn, fel Cristnogion, yn helpu i sicrhau'r adnewyddu hwn drwy ein geiriau a'n gweithredoedd.

Wedi ymddangos yn wreiddiol yn Prayer Matters.

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Deri Cyfiawnder – Myfyrdod

Darllenwch Eseia 61:1-3.

Dywedir bod deri yn cymryd 300 mlynedd i dyfu, 300 mlynedd i fyw a 300 mlynedd i farw. Maen nhw'n para'n hir ac yn sefyll yn gadarn. Maen nhw'n ymestyn tuag at y nefoedd ac yn ddwfn i'r ddaear. Wrth i'r tymhorau newid, mae ganddyn nhw adegau o dwf ac amseroedd lle maen nhw ynghwsg, yn gwarchod ac yn cadw cyn i'w dail flaguro a thyfu eto.

Treuliwch beth amser yn myfyrio ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod wedi eu plannu fel *Derwen Cyfiawnder* ...

PLANNWYD GAN DDUW

Dechreuwch drwy ddiolch i Dduw eich bod wedi cael eich dewis ganddo, am sicrwydd ei ras, ac am eich bod wedi cael eich adfer a'ch ailblannu ganddo i arddangos ei ogoniant.

DYFNHAU EICH GWREIDDIAU

Ym mha bridd ydych chi'n cael eich plannu? Pa mor ddwfn yw eich gwreiddiau? Pa mor dda allwch chi wrthsefyll y gwyntoedd heriol pan fyddan nhw'n dod? Ydych chi'n gallu sefyll yn gadarn? Ydych chi'n cael eich chwythu o gwmpas y lle neu a yw'r awyr yn llonydd?

Estynnwch i lawr yn ddyfnach at Dduw sy'n byw ynoch chi, sydd wedi gwneud eich calon yn gartref iddo. Rhowch groeso iddo i mewn a gofynnwch iddo ddatgelu mwy o'i gariad tuag atoch. Gofynnwch i Dduw eich helpu i gyrraedd i lawr yn ddyfnach i'w gariad.

HAUL A GLAW

Mae coed yn ymestyn i fyny ac yn plygu tuag at yr haul er mwyn i'w dail allu amsugno'r golau. Sut gallwch chi ymestyn eich dwylo tuag at Dduw?

Wrth i goed amsugno maeth drwy olau'r haul a'r glaw, meddyliwch beth y mae Duw yn ei fwydo i chi. Sut gallwch chi amsugno'r hyn y mae'n ceisio'i ddweud wrthych? Sut gallwch chi sicrhau mai o Dduw y mae'r hyn rydych chi'n ei amsugno?

YMATEB I'R TYMOR

Fel coed collddail eraill, mae coed derw yn colli eu dail i gadw adnoddau. Mae hyn hefyd yn helpu i'w hamddiffyn rhag cael eu chwythu i lawr yn ystod misoedd mwy gwyntog y gaeaf.

Meddyliwch am y tymor rydych chi ynddo. Ydych chi mewn tymor lle mae llawer yn eich amgylchedd cyfagos i'ch helpu i dyfu? Neu a ydych yn gorfod colli dail, i gadw'r hyn sydd gennych i amddiffyn eich hun rhag y tywydd garw?

Ymddiriedwch y bydd tymhorau ein bywydau yn newid yn union fel y mae'r tymhorau eu hunain yn newid. Gofynnwch i Dduw am ei arweiniad i ymateb yn effeithiol i'r tymor rydych chi ynddo ar hyn o bryd.

TYFU GYDA'N GILYDD

Nid yw derwen unigol mewn cae mor ddefnyddiol i saer coed neu adeiladwr â deri'r coetir. Wrth iddyn nhw dyfu gyda choed eraill, dydyn nhw ddim yn lledaenu

fel y bydden nhw yn y cae agored. Maen nhw'n tyfu'n sythach ac yn uwch i estyn at y golau.

Mae'r deri cyfiawnder yn lluosog – maen nhw'n tyfu gyda'i gilydd. Gweddïwch dros y rhai yn eich coedwig chi – y gallwch dyfu i fyny gyda'ch gilydd tuag at y golau. Peidiwch â bod yn dderwen mewn cae, yn estyn allan ac yn cymryd drosodd, ond yn dderwen coetir, yn helpu'ch gilydd i dyfu.

DWYN FFRWYTH

Mae coedwigoedd derw yn cynnal mwy o ffurfiau bywyd nag unrhyw goedwig frodorol arall, gan gynnwys cannoedd o rywogaethau pryfed. Maen nhw'n ffynhonnell bwysig o fwyd i lawer o adar. Mae gwiwerod, moch daear a cheirw yn bwydo ar fes, a lindys yn bwydo ar eu blodau a blagur y dail.

Gadewch i'ch bywyd fod yn ffrwythlon, gan helpu eraill o'ch cwmpas i gael eu maethu. Gweddïwch am yr effaith y mae eich gweithredoedd yn ei chael ar amrywiaeth eang o bobl o'ch cwmpas, yn ogystal â'r greadigaeth ehangach. Yn olaf, ystyriwch sut y gallwn sefyll yn gadarn fel deri yng nghanol anhrefn a gwyntoedd chwyrlïog bywyd.

cyfeirnodau

- *https://www.christiantoday.com/article/oaks-of-righteousness-the-hidden-lesson-in-a-bible-prophecy/128352.htm*
- *https://www.woodlandtrust.org.uk/trees-woods-and-wildlife/british-trees/a-z-of-british-trees/english-oak/*
- *https://www.sciencefocus.com/nature/why-do-trees-lose-their-leaves/*

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Addoliad Creadigol

Synau Natur

Defnyddiwch un o'r syniadau canlynol i'ch helpu i ddefnyddio cerddoriaeth a sain fel rhan o'ch addoliad i'r Creawdwr:

- Canwch gân o fawl sy'n adlewyrchu'n benodol ogoniant ei greadigaeth (gweler diwedd y ddogfen am syniadau).
- Gwnewch rai offerynnau sothach syml (e.e. ysgytwyr poteli plastig gan ddefnyddio reis, drymiau tiwb/twb) a 'chanwch gân newydd' gyda'ch gwastraff.
- Chwiliwch ar y rhyngrwyd am synau natur fel adar, dŵr, anifeiliaid ac ati. Gallech hefyd ddefnyddio gwasanaeth ffrydio, neu mae nifer o apiau am ddim ar gael. Defnyddiwch y rhain fel cefndir i'ch amser darllen y Beibl neu weddïo i'ch helpu i gysylltu â synau'r greadigaeth a diolchwch i Dduw am ryfeddod y cyfan.

Sticeri Bin

Rhannwch labeli (neu ddefnyddio papur plaen). Gofynnwch i bobl dynnu llun ar y rhain neu eu haddurno gyda nodyn atgoffa i ystyried effaith yr hyn rydych yn ei ddefnyddio a'r gwastraff y mae hyn yn ei greu. Anogwch bobl i gymryd y rhain a'u gludo ar neu o amgylch eu prif fin gwastraff i'w hatgoffa o'r alwad i fod yn rhan o adfer y greadigaeth.

Poster wedi'i Ailgylchu

Defnyddiwch ddarn mawr o flwch cardbord (pecyn nwyddau a gawsoch yn ddiweddar neu flwch o archfarchnad) ac anogwch grŵp i dreulio amser yn creu collage poster gweddi gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu. Os ydych yn cynnal gwasanaeth ar-lein, anogwch bobl i wneud eu poster eu hunain gyda'u hailgylchu gwastraff cartref. Dangoswch y rhain rywle yn yr adeilad fel rhywbeth i'ch atgoffa'n barhaus o'ch ymrwymiad i wasanaethu'r greadigaeth fel rhan o'ch cenhadaeth.

Planwyr Plastig

Casglwch hen boteli plastig a'u defnyddio i greu planwyr neu ymborthwyr adar. Mae hon yn ffordd wych o ailddefnyddio rhywbeth os oes gennych boteli plastig a fyddai fel arall yn cael eu taflu – felly peidiwch â phrynu rhagor ar gyfer hyn yn unig! Bydd chwilio cyflym ar y rhyngrwyd yn rhoi digon o ysbrydoliaeth ar sut i wneud hyn. Efallai y byddwch hefyd am addurno'r rhain gydag adnod, gweddi neu eich ymrwymiad i ymateb.

Dwdlan Crafu

Mae llygredd aer yn fater sy'n effeithio ar ein trefi a'n dinasoedd yn ogystal â phobl ledled y byd. Gan ddefnyddio padiau dwdlan crafu (sydd ar gael gan gyflenwyr crefft a deunydd ysgrifennu) gofynnwch i bobl ymateb a chreu delwedd o harddwch drwy 'dynnu'r llygredd'. Wrth wneud hynny, anogwch bobl i weddïo y bydd Duw yn eu helpu i drosi'r weithred symbolaidd hon yn gamau ymarferol.

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Cynhaliwch ran neu'r cyfan o'ch gwasanaeth yn yr awyr agored

Os yw canllawiau cyfredol y llywodraeth yn eich ardaloedd yn caniatáu, ystyriwch gynnal rhan neu'r cyfan o'ch gwasanaeth yn yr awyr agored a threulio peth amser mewn gweddi ac addoliad yng nghyd-destun creadigaeth Duw, 'sydd eisoes yn addoli Duw yn huawdl gan fod pob creadur, a hyd yn oed mynyddoedd, afonydd a choed yn addoli'r Arglwydd drwy wneud yr hyn a greodd Duw hwy i'w wneud'. Os na fedrwch wneud hyn, ystyriwch sut y gallech annog cymuned eich eglwys i dreulio amser mewn gweddi ac addoliad wrth fynd am dro neu wrth dreulio amser arall yn yr awyr agored. Os ydych chi'n dal i addoli ar-lein, ystyriwch yn lle hynny a allech recordio rhan neu'r cyfan o'ch gwasanaeth o le addas yn yr awyr agored. [1]

- Os yw'n lle o harddwch naturiol mawr, canolbwyntiwch ar ddiolch i Dduw ac ymrwymo i ddiogelu'r safle a safleoedd eraill.
- Os yw'n lle o ddirywiad amgylcheddol, canolbwyntiwch ar gyffesu ein methiannau amgylcheddol ac ymrwymwch i weithredoedd gwella ac adfer. Efallai y byddwch hefyd am dreulio peth o'ch amser gyda'ch gilydd yn glanhau'r ardal, neu'n meddwl am ba gamau ymarferol y gallech eu cymryd i helpu i adfer y lle hwn.
- Os yw'n ofod trefol, cadwch olwg am yr enghreifftiau o'r byd naturiol y mae modd eu gweld gan ddiolch i Dduw am y rhain, a gweddïwch y byddwch yn cymryd sylw llawnach o greadigaeth Duw bob dydd.

Chwiliwch am ffyrdd o ymgorffori'r hyn sydd o'ch amgylch yn eich cyfnod addoli drwy:

- Gasglu symbolau o natur o'r gofod (heb ei niweidio) a dod â nhw at ei gilydd / eu rhannu fel enghreifftiau o'r byd hardd y mae Duw wedi'i greu.
- Cynnwys cyfnod o dawelwch i wrando, ac i ymuno'n ddi-eiriau, â chân addoliad y greadigaeth a'i riddfan (Rhufeiniaid 8:22).
- Anogwch bobl i archwilio'r gofod eu hunain, gan gadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol.

Addaswyd ***o'r Season of Celebration Guide***

Taith gerdded y greadigaeth

Yn unol â'r canllawiau cyfredol yn eich ardal, trefnwch daith gerdded y greadigaeth i fyfyrio ar rodd creadigaeth Duw a'n hymateb i fod mewn cymundeb dyfnach â phopeth byw. Gallai hyn gynnwys treulio amser yn myfyrio ar y saith diwrnod o greu ar wahanol adegau ar hyd eich llwybr, gan ddefnyddio darnau o'r Beibl neu weddïau perthnasol sydd i'w gweld mewn mannau eraill yn yr adnodd hwn, neu Ddadansoddiad y Ddaear (ar dud 25-26 y PDF hwn).

Addaswyd ***o'r Season of Celebration Guide***

[1] ***Season of Celebration Guide***

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Addoliad Ymarferol

Ystyriwch yr hyn y gallwch ei wneud fel gweithred addoli ymarferol a fydd yn helpu i ofalu am greadigaeth. Bydd yr hyn y mae hyn yn ei olygu yn amrywio yn dibynnu ar yr ardal lle rydych chi'n byw a'r materion ecolegol lleol sy'n berthnasol, ond dyma rai syniadau:

- **Glanhau dyfrffyrdd lleol** – gall y rhain gynnwys llygredd o wrteithiau a phlaladdwyr, yn ogystal â gwastraff arall, gan gynnwys plastigau. Dyma rai awgrymiadau ar sut i drefnu glanhau.
- **Trefnu glanhau ardal leol** – Fel y dyfrffyrdd uchod, gall trefnu i lanhau parc, coedwig neu ardal naturiol arall lleol helpu i ddiogelu'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw yno rhag llygredd fel cemegau a micro blastigau.
- **Plannwch goeden** – Mae coed yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, glanhau'r aer a darparu cynefin. Gall plannu a meithrin coeden fod yn symbol o'ch ymrwymiad cyffredin i greu. Os yw'n bosibl, dewiswch rywogaeth frodorol gan dyma fydd y ffordd orau o gefnogi pryfed ac anifeiliaid eraill. (https://www.plantbritain.co.uk/)

*Addaswyd **o'r Season of Celebration Guide.** Edrychwch ar yr adnodd Syniadau ar gyfer Gweithredu am ffyrdd mwy ymarferol o wasanaethu'r greadigaeth.*

Cynhaeaf – Bomiau Hadau Blodau Gwyllt

Bydd angen y canlynol arnoch:

- hadau blodau gwyllt
- pridd
- blawd neu glai powdr
- dŵr
- powlen gymysgu

Mae blodau gwyllt yn ffordd wych o harddu eich gardd neu'ch ardal leol ac adennill ychydig o'n cymuned leol ar gyfer natur. Darparwch ychydig o hadau blodau gwyllt ac anogwch bobl i wneud eu bomiau hadau eu hunain a'u rhyddhau yn rhywle fel gweithred o addoliad i'n Creawdwr. Gallech adrodd adnodau o'r Beibl sy'n sôn am ddaioni Duw wrth i chi daflu'r hadau neu gallech weddïo dros yr ardal.

cyfeirnodau

- *https://www.nationaltrust.org.uk/features/how-to-make-wildflower-seed-balls*
- *https://www.wildlifetrusts.org/actions/how-make-seed-bomb*

Lluniau 'Ffon'

Darparwch (neu ofyn i bobl gasglu) amrywiaeth o ffyn (gallech hefyd gasglu dail ac ati) a'u defnyddio i greu llun - gallai'r rhain naill ai gael eu gludo ar ddarn o bapur neu gerdyn, neu eu trefnu ar y ddaear ac yna eu tynnu eu llun.

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Gardd Pwy yw Hon?

Gall hyn weithio hefyd p'un a ydych chi'n addoli gyda'ch gilydd wyneb yn wyneb neu ar-lein. Gofynnwch i ddau neu dri o'ch cynulleidfa i anfon lluniau o'u gardd atoch. Yna gofynnwch i weddill eich cynulleidfa ddyfalu pwy biau'r ardd. Gall y rhai yn yr ystafell ddyfalu gyda'i gilydd, neu yn y blwch sgwrsio os ar-lein.

Cael Helfa Lliwiau/Collage Lliw OWT

Gofynnwch i bobl fynd i chwilio am gymaint o wahanol liwiau ym myd natur y gallan nhw ddod o hyd iddynt. Gallech hyd yn oed ddefnyddio'r hyn a welwch i wneud collage enfys lliwgar. Defnyddiwch daflen weithgaredd Get OWT Week 2 activity sheet and colour hunt card i'ch helpu.

Mae Get OWT (Yn yr Awyr Agored gyda Phlant Bach) yn rhaglen sy'n canolbwyntio ar y teulu gan ddefnyddio natur i feithrin plant bach. Mae llawer o adnoddau ar-lein i helpu plant bach a'u gofalwyr i brofi manteision natur drwy weithgareddau creadigol a llawn hwyl.

Sul yr Hinsawdd

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH

Cerddoriaeth a Fideo

Caneuon Posibl

Mae digon o ganeuon y gallech eu canu i addoli Duw'r creawdwr. Dyma rai awgrymiadau.

- 'Popeth a waneth ein Duw a'n Rhi' (*Caneuon Ffydd* 134)
- 'Tydi a roddaist liw i'r wawr' (*Caneuon Ffydd* 131)
- 'Caraf yr haul sy'n wên i gyd' (*Caneuon Ffydd* 122)
- 'Mor fawr wyt Ti' (*Caneuon Ffydd 140*)
- 'Glendid maith y cread' (*Caneuon Ffydd* 123)
- 'Mawl fo i'r Arglwydd, sy'n Frenin gogoniant a mawredd' (*Caneuon Ffydd* 223)
- 'Molwch yr Arglwydd o'r nefoedd' http://www.gobaith.cymru/molwch-yr-arglwydd-or-nefoedd/
- 'Trwyddot ti' - http://www.gobaith.cymru/trwyddot-ti/
- Doxecology - https://www.resoundworship.org/projects/doxecology - Albwm o ganeuon newydd Saesneg sy'n ymwneud â chreu ac ecoleg – gyda thaflenni arwain a chorawl am ddim (angen cofrestru).

Fideos

Dyma rai fideos posibl y gallech eu defnyddio i'ch helpu i archwilio'r mater hwn fel rhan o'ch gwasanaeth neu sesiwn.

- Tearfund – The World Rebooted https://youtu.be/Mcbxjz-LAuU
- Tearfund – Theory of Poverty https://vimeo.com/451780056/841556a0a7
- Clymblaid Hinsawdd – The Time is Now for Climate Action - https://youtu.be/IF2juJyknOM
- He's Got the Whole World in his Hands - https://youtu.be/QyGH-iWWHr4
- https://www.ted.com/series/countdown